

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Gareth Price – Clerc y Pwyllgor  
Hybrid 0300 200 6565  
Dyddiad: Dydd Llun, 24 Mawrth 2025 [Deisebau@senedd.cymru](mailto:Deisebau@senedd.cymru)  
Amser: 14.00

---

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 – 22)

### 2 Deisebau newydd

2.1 P-06-1491 Rydym yn mynnu bargaen deg i drigolion yr effeithir arnynt gan y cynllun Arbed/y Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau

(Tudalennau 23 – 31)

2.2 P-06-1498 Cyflwyno gwasanaeth bws o Orsaf Fysiau'r Fenni i Ysbyty'r Faenor

(Tudalennau 32 – 37)

### 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-06-1352 Cymeradwyo adeiladu trydedd bont dros y Fenai

(Tudalennau 38 – 39)

3.2 P-06-1464 Caniatáu i deuluoedd Cymru sydd wedi colli baban cyn 24 wythnos gael tystysgrif colli baban

(Tudalennau 40 – 41)

3.3 P-06-1463 Parhau i ariannu swyddogion heddlu ysgolion sy'n addysgu plant ac yn cefnogi ysgolion

(Tudalennau 42 – 47)

3.4 P-06-1475 Gwella diogelwch yr A458, Treberfedd, Powys ar frys yn sgil gyrru peryglus parhaus

(Tudalennau 48 – 51)



3.5 P-06-1476 Clustogfa orfodol 1000 metr ar gyfer yr holl chwareli newydd a phresennol

(Tudalennau 52 – 90)

3.6 P-06-1332 Ariannu ymchwil brechlyn i amddiffyn gwiwerod coch rhag feirws marwol brech y gwiwerod.

(Tudalennau 91 – 95)

## **4 Papurau i'w nodi**

4.1 P-06-1479 Stopio cadw plant, pobl ifanc ac oedolion ag anableddau dysgu ac awtistiaeth mewn ysbytai

(Tudalen 96)

4.2 P-06-1489 Deddfu i sicrhau bod briciau gwenoliaid duon yn cael eu gosod ym mhob adeilad newydd yng Nghymru

(Tudalennau 97 – 98)

4.3 P-05-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

(Tudalennau 99 – 100)

4.4 P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas

## **5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

## **6 Adroddiad byr drafft: P-06-1380 Bathodyn glas gydol oes i unigolion sydd â diagnosis gydol oes**

(Tudalennau 101 – 103)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Rydym yn mynnu bargaen deg i drigolion yr effeithir arnynt gan y cynllun Arbed/y Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau

Y Pwyllgor Deisebau | 24 Mawrth 2025  
Petitions Committee | 24 March 2025

Cyfeirnod: SR24/10372-3

**Rhif y Ddeiseb:** P-06-1491

**Teitl y ddeiseb:** Rydym yn mynnu bargaen deg i drigolion yr effeithir arnynt gan y cynllun Arbed/y Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau

**Geiriad y ddeiseb:** Ym mis Medi 2012, ymunodd trigolion Caerau ac ardaloedd eraill yng Nghymru â chynllun effeithlonrwydd ynni a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Darparodd y cynllun inswleiddio wal fewnol ac allanol i'r tai dan sylw ac, ers i'r inswleiddio gael ei osod, mae tai cyfranogwyr wedi dioddef o leithder a llwydni. Mae hyn yn ei dro wedi bod yn dreth ar gyllid preswylwyr ac mae wedi effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl preswylwyr.

Fe wnaethon ni ymuno â'r cynlluniau hyn gyda phob ewyllys da, ac rydym nawr am i'r ewyllys da honno gael ei had-dalu.

Rhagor o fanylion:

Roedd y gwaith yn cynnwys insiwleiddio mewnol ac allanol, boeleri newydd, fentiau ar yr eiddo, a gwaith rendro.

Ers i'r gwaith gael ei wneud, mae trigolion wedi gorfod byw gydag achosion eithafol o leithder a llwydni. Oherwydd hyn, mae trigolion yn gorfod talu am waith i unioni pethau, fel talu am geginau newydd, carpedi newydd, paent newydd, bleindiau newydd. Mae hyn wedi bod yn broblem barhaus ers dros ddegawd bellach. Yn anffodus, mae rhai trigolion wedi marw heb weld y materion hyn yn cael eu datrys. Ceir isod lincs i straeon newyddion sy'n rhoi rhagor o wybodaeth:

<https://oggybloggyogwr.com/2021/11/the-caerau-insulation-scandal-a-timeline-of-shame/>



<https://oggybloggyogwr.com/2021/11/welsh-government-unenthusiastic-about-supporting-arbed-scandal-clean-up-in-caerau/>

<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-60765932>

Rhaid unioni'r difrod i'r eiddo, a rhaid digolledu'r trigolion am y miloedd o bunnoedd maen nhw wedi eu talu o'u pocedi eu hunain i ddad-wneud y difrod.

## 1. Y cefndir

Roedd **Arbed** yn gynllun effeithlonrwydd ynni ar sail ardal a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a ddechreuodd yn 2009, ac a gynhaliwyd mewn sawl cam. I ddechrau, roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu i ran olaf y cynllun gael ei gynnal o fis Mai 2018 hyd fis Mai 2021, gyda chyfanswm cyllideb o £46 miliwn ac opsiwn i ymestyn y cytundeb am hyd at ddwy flynedd arall. Cafodd y cynllun ei ymestyn tan fis Tachwedd 2021 ond mae'r cytundeb bellach wedi dod i ben.

Rhwng mis Hydref 2018 a mis Mawrth 2021, gosododd Arbed **fesurau** mewn 3,108 o gartrefi, gyda 2,095 (67%) ohonynt yn cael system wresogi newydd, 1,777 (57%) o gartrefi yn cael paneli solar a 415 (13%) yn cael insiwleiddio eu hatig.

Roedd y **Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau (CESP)** yn cael ei chynnal rhwng 1 Hydref 2009 a 31 Rhagfyr 2012. Roedd CESP yn rhan o Raglen Arbed Ynni Cartref Llywodraeth y DU. Cynlluniwyd CESP i hyrwyddo dull 'tŷ cyfan' ac i drin cynifer o eiddo â phosibl mewn ardaloedd daearyddol diffiniedig a ddewiswyd gan ddefnyddio Parth Incwm y Mynegeion Amddifadedd Lluosog (IMD) yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

### 1.1. Caerau

Yn 2012-2013, gwnaeth llawer o drigolion yng Nghaerau, Pen-y-bont ar Ogwr gais i gymryd rhan mewn rhaglen effeithlonrwydd ynni genedlaethol a oedd â'r nod o ddarparu gwell inswleiddio waliau mewnol ac allanol ar gyfer cartrefi lleol, o leihau allyriadau carbon, a lleihau biliau tanwydd ac ynni ar gyfer cartrefi.

Cyflawnwyd y gwaith hwn fel rhan o **ddau gynllun**. Cafodd cyfanswm o 79 eiddo waith o dan y CESP, a noddwyd gan Lywodraeth y DU gan ddefnyddio cyllid gan y prif gyflenwyr ynni, tra bod gwaith wedi'i wneud ar 25 eiddo drwy gynllun Arbed Llywodraeth Cymru.

Yn fuan ar ôl cwblhau'r gwaith, dechreuodd rhai cartrefi brofi problemau fel lleithder a llwydni du ar waliau mewnol. Yn 2019, comisiynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y cwmni Nuvision Energy (Wales) Cyf. i gynnal **astudiaeth** ar sampl cynrychioliadol o gartrefi, ac i gynhyrchu adroddiad yn amlinellu'r problemau a oedd wedi codi. Arolygwyd 32 o gartrefi – a chanfuwyd bod problemau gyda'r gwaith a wnaed ym mhob un ohonynt.

## 1.2. Archwilio mewnol

Yn 2018, adolygodd Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ba raddau yr oedd polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor wedi'u cymhwyso neu heb eu cymhwyso mewn cysylltiad â chynllun Arbed rhwng mis Medi 2012 a mis Ebrill 2013.

Roedd **canfyddiadau'r adran Archwilio Mewnol** yn amlygu nifer o faterion gweithdrefnol mewnol yn ymwneud â llywodraethu, gwneud penderfyniadau, caffael, ac agweddau ar fonitro a rheoli'r cyllid yr oedd y Cyngor yn ei weinyddu ar gyfer y Cynllun ar y pryd.

## 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ysgrifennodd Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, at y Pwyllgor ar 26 Chwefror 2025. Mae hi'n dweud bod insiwleiddio waliau allanol a osodwyd o dan y CESP wedi methu mewn 104 o gartrefi perchen-feddianwyr yng Nghaerau a bod y contractwyr gwreiddiol "wedi rhoi'r gorau i fasnachu ac ni roddwyd unrhyw warantau pan gwblhawyd y gwaith".

Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu £2.65 miliwn o gyllid grant cyfalaf i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2025 i wneud gwaith adfer ar 79 o gartrefi, ac y byddai 25 arall yn cael eu hariannu gan y Cyngor.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn nodi'r camau y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn eu cymryd i ymgysylltu â'r gymuned leol. Mae hyn yn cynnwys sesiynau galw heibio wythnosol i breswylwyr, a chyfathrebu rheolaidd ar

gynnydd y gwaith adfer. Mae hi'n dweud bod Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi tynnu deunydd inswleiddio waliau allanol o dros hanner y cartrefi, a "chaiff dyluniadau ar gyfer ailosod y deunydd hwn eu hawdurdodi yn yr ychydig wythnosau nesaf".

Nid yw llythyr Ysgrifennydd y Cabinet yn sôn am gynllun Arbed Llywodraeth Cymru.

### 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd 2024, gofynnodd Tom Giffard AS i Ysgrifennydd y Cabinet ynglŷn â "gweithredu cynllun Arbed yng Nghaerau" a pha wersi a ddysgwyd. Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet gyllid grant Llywodraeth Cymru i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a ddisgrifir uchod. Dywedodd fod problemau yn y gorffennol wedi llywio'r gwaith o ddylunio Rhaglen Cartrefi Clyd newydd Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys "sicrwydd ansawdd o safon uwch". Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ymhelaethu ymhellach ar gamau sicrwydd yn y cynllun newydd yn dilyn datganiad gerbron y Senedd ym mis Ionawr 2025.

Gofynnodd Luke Fletcher AS am y problemau sy'n gysylltiedig â chynllun Arbed yn ystod y Cyfarfod Llawn ym mis Medi 2024. Dywedodd y Prif Weinidog:

Nid oedd hwn yn fodel o'r ffordd yr oeddem ni eisiau i'r prosiect penodol hwn weithio. Mae'n fecanwaith o inswleiddio waliau allanol; effeithiwyd ar 104 o gartrefi. Roedd hynny oherwydd crefftwaith gwael, ac nid yw hynny'n dderbyniol. Rwy'n credu ei bod hi'n werth tanlinellu, fel Llywodraeth, nad oes cyfrifoldeb ffurfiol na chyfreithiol arnom i ni gywiro'r sefyllfa, ond y gwir amdani yw ein bod ni wedi cyfrannu £2.6 miliwn i helpu cyngor Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cywiro'r gwaith hwnnw. Felly, rwy'n gwybod bod y gwaith eisoes wedi dechrau a bod cyfleoedd i bobl weithio gyda'r Cyngor i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael y cywiriadau sydd eu hangen arnyn nhw i'w cartrefi.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad dilynol i dlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd newydd. Er nad yw'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar achosion penodol, fel testun y ddeiseb hon, mae'r Pwyllgor wedi clywed pryderon am enghreifftiau o grefftwaith gwael yn y gorffennol. Mae hefyd wedi clywed galwadau am gynllun newydd ar sail ardal, i gymryd lle Arbed. Disgwylir i'r Pwyllgor gyhoeddi adroddiad maes o law.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1491  
Ein cyf/Our ref JB/10570/24

Carolyn Thomas  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Deisebau@senedd.cymru

26 Chwefror 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â deiseb 5 Rhagfyr ar ddeunydd insiwleiddio waliau allanol (EWI) yng Nghaerau, Pen-y-bont ar Ogwr.

Cafodd EWI ei osod yn flaenorol o dan gynllun Rhaglen Arbed Ynni Cymunedol Llywodraeth y DU (CESP) yn 2012. Wedi hynny mae'r EWI wedi methu mewn 104 o gartrefi perchen-feddianwyr yn ardal Caerau ac wedi arwain at leithder sy'n ymdreiddio a llwydni sy'n tyfu'n eang. Mae'r contractwyr a wnaeth y gwaith gwreiddiol wedi rhoi'r gorau i fasnachu ac ni roddwyd unrhyw warantau pan gafodd y gwaith ei gwblhau.

Mae crefftwaith gwael wrth osod deunydd insiwleiddio waliau allanol ar yr eiddo hyn wedi achosi gofid ac afiechyd i rai preswylwyr ac roedd yr holl lwybrau i berchnogion tai droi atynt gyda gosodwyr wedi'u dihyssbyddu.

O ganlyniad i hyn, camodd Llywodraeth Cymru i'r adwy i gynorthwyo, er nad oedd ganddi unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i'r preswylwyr, ac ymrwymo i ariannu'r gwaith adfer gofynnol i'r EWI.

Rydym wedi dyfarnu cyllid grant cyfalaf i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSC). Roedd hyn yn £2.65m rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2025 i wneud gwaith adfer ar 104 o gartrefi perchen-feddianwyr yng Nghaerau. Mae 79 o'r rhain yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae'r 25 sy'n weddill wedi cael eu hariannu gan Gyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae gwaith yn cael ei wneud yn unol â safonau PAS 2035 fel bod y mesurau mwyaf priodol yn cael eu rhoi ar waith i bob cartref. Mae hyn yn golygu bod pob prosiect ôl-osod yn destun gwaith monitro a gwerthuso i benderfynu a yw canlyniadau arfaethedig y prosiect ôl-osod wedi'u gwireddu. Mae cyflymder y gwaith i fynd i'r afael â'r problemau yn dibynnu ar dywydd ffafriol.

(Safon PAS 2035 yw'r fframwaith swyddogol ar gyfer ôl-osod tai cyfan yn y DU, gan amlinellu'r prosesau a'r arferion gorau ar gyfer y diwydiant).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales](mailto:Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 28**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ochr yn ochr â chontractwr sy'n dechnegol gymwys, mae'r awdurdod lleol wedi cydnabod yr angen am waith ymgysylltu cryf â'r gymuned. Mae sesiynau galw heibio wythnosol yn rhoi cyfleoedd i breswylwyr roi adborth a gwneud ymholiadau neu godi unrhyw bryderon am gynnydd. Mae rheolwr cyswllt cymunedol ar y safle yn ystod oriau gwaith. Mae preswylwyr lleol yn cael gwybod am y cynnydd. Yn ogystal, mae Warmworks (y gosodwyr) wedi cynnal sesiwn 'Cwrdd â'r Gosodwr' i berchnogion tai ym mis Rhagfyr, gydag un arall wedi'i gynllunio ar gyfer mis Chwefror.

Yn ddiweddar, cyfarfu fy swyddogion â Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr ac maent yn cadarnhau eu bod wedi gwneud cynnydd da o ran cael gwared ar yr EWI o dros hanner y cartrefi. Mae dylunwyr ôl-osod a chydlynwyr ôl-osod ar y safle ar hyn o bryd yn cynnal gwiriadau ansawdd mewnol. Bydd y cynlluniau ar gyfer ailosod EWI yn cael eu hawdurdodi yn yr ychydig wythnosau nesaf.

Fy nealltwriaeth i yw bod adborth ar y safle yn gadarnhaol ar y cyfan er bod lleiafrif bach iawn wedi bod yn llafar dros yr amser a gymerwyd i gwblhau'r gwaith a'r angen am iawndal i berchnogion tai.

Unwaith eto, diolch am ysgrifennu ataf a gobeithiaf y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jayne Bryant". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Jayne Bryant AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai  
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

**P-06-1491 We demand a fair deal for residents affected by the Arbed CESP scheme - Correspondence from the Petitioner to the Committee, 18 March 2025**

I'll update you on the background of our plight. Back in 2012, I and many other residents in Caerau were enticed into a government-backed scheme, which was funded by Arbed and Cesp. This scheme was sold to residents as the best thing since sliced bread, and it would make our homes energy-efficient and more economical to run. This involved installing external wall insulation, and where not possible on the outside, it would be installed internally. There were also boilers replaced in properties where the boilers were over a certain age.

The installers were Green Renewable Wales, a company set up by a councillor of BCBC and a subcontractor, Tower Energy. The tender for the job was handed to GRW without due process; this has been investigated by Audit Wales. Details of which can be found here : [arbed-scheme-caerau-findings-of-internal-audit.pdf](#)

Residents encountered multiple problems during the installation, including terrible workmanship, rude contractors, and misuse of people's properties.

When the contractors had apparently finished the project, issues started to appear, and multiple complaints were made to the company. Unfortunately, no resolution to these issues was made, and ultimately, GRW went into liquidation. Multiple residents kept on complaining and continued to complain to MP's Senedd Members, BCBC, and trading standards.

Our fight has been ongoing for many, many years. We are now 13 years later, and the condition of our homes that have been left in due to this insulation is absolutely disgusting! I alone have spent close to £20k or more over the 13 years trying to rectify issues and thrown money away. To put it in perspective, I replaced my kitchen in 2017 at a cost of £9k due to the previous one being ruined by the dampness, and this kitchen has gone the same way. I can't have open foods in the cupboards; tins rust. I've gone through multiple small kitchen electrical items due to rusting and failing. I am not the only one in this predicament. Other residents have also spent unscrupulous amounts of money trying to rectify the faults, and we cannot keep doing it. Some residents do not have the money at all to try to do this, and they live in derelict homes.

I appreciate that finally, after 12 years, work started to remove the faulty insulation; however, that is all that is being done. No rectification work is being done to our homes; walls are not being replastered, carpets and some furnishings are not being replaced, and there is no compensation!

After all we have been through as residents, such an arrangement is an insult. We are being left to recuperate the costs of a badly mismanaged energy scheme that should have been overseen correctly. Additionally, a while back, I requested information on Arbed, the contracts between WG and BCBC and the conditions that BCBC was meant to adhere to. There were significant failings.

I would also like there to be a public inquiry into what took place and how this was allowed to happen.

I want to thank you for taking the time to consider our petition, and I look forward to hearing from you.

Rhiannon Goodall

# P-06-1498 Cyflwyno gwasanaeth bws o Orsaf Fysiau'r Fenni i Ysbyty'r Faenor

Y Pwyllgor Deisebau | 24 Mawrth 2025  
Petitions Committee | 24 March 2025

Cyfeirnod: SR25/10746-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1498

Teitl y ddeiseb: Cyflwyno gwasanaeth bws o Orsaf Fysiau'r Fenni i Ysbyty'r  
Faenor

Geiriad y ddeiseb: Pan mae pobl wedi'u cynhyrfu, yn bryderus, neu'n wynebu  
straen enfawr, naill ai fel claf neu anwylyn, nid yw opsiynau eraill yn ddiogel.  
Hefyd dylem fod yn lleihau defnydd o geir er mwyn brwydro yn erbyn newid  
hinsawdd. Byddai cyflwyno gwasanaethau hanfodol fel hyn yn gam cyntaf da.



## 1. Y cefndir

Mae'r deisebydd yn galw am wasanaeth bws rhwng gorsaf fysiau'r Fenni ac ysbyty'r Faenor. Mae Bws Casnewydd yn gweithredu gwasanaeth ar hyn o bryd sy'n cysylltu'r ysbyty â gorsafoedd trenau a bysiau Cwmbwrân, yn ogystal â chanol dinas Casnewydd lle gellir gwneud cysylltiadau â'r Fenni.

Rhoddir mwy o fanylion isod am sut mae'r rhwydwaith bysiau yn cael ei gynllunio a'i ariannu ar hyn o bryd.

### 1.1. Cynllunio gwasanaethau bws

Mae gwasanaethau bysiau yng Nghymru ar hyn o bryd yn gweithredu o fewn marchnad sydd wedi ei dadreoleiddio. Felly, er bod gweithredwyr yn cael rhywfaint o gefnogaeth gan y Llywodraeth, mae hyn yn golygu bod mwyafrif y gwasanaethau bysiau lleol yn gweithredu ar sail fasnachol.

Er bod gweithredwyr bysiau trwyddedig yn rhydd i gofrestru unrhyw wasanaeth y maent yn dymuno ei weithredu, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan adran 63(1) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (y Ddeddf) i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i fodloni gofynion trafndiaeth gyhoeddus na fyddent fel arall yn cael eu bodloni drwy'r farchnad fasnachol. Gelwir y rhain yn 'wasanaethau cymdeithasol angenrheidiol'. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi awdurdod lleol i ymrwymo i gontract i dalu cymhorthdal am wasanaethau pe na bai'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu o gwbl fel arall, neu'n cael ei ddarparu i safon benodol.

### 1.2. Cymorth gan Lywodraeth Cymru

Y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau yw prif fecanwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu cyllid / cymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau bysiau. Mae'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau yn cynnwys yr elfen Grant Cymorth Cilomedr Byw, sy'n cael ei dalu i'r holl weithredwyr am bob cilomedr a gaiff ei yrru wrth ddarparu gwasanaeth cofrestredig ac mae'n cyfrif am tua dau draean o'r Grant hwnnw. Mae'r gweddill yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol, ynghyd â'u cyllidebau eu hunain, i gefnogi gwasanaethau sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid ychwanegol, er enghraifft drwy gymorth ar gyfer cynlluniau tocynnau teithio rhatach a'r rhwydwaith bysiau pellter hir TrawsCymru.

## Cyllid brys

---

Yn dilyn [gostyniad yn nifer y teithwyr](#) o ganlyniad i bandemig Covid-19, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn darparu cymorth brys i'r diwydiant bysiau drwy [gyfres o grantiau](#). Yr iteriad diweddaraf o'r cymorth hwn yw'r Grant Rhwydwaith Bysiau ar gyfer awdurdodau lleol i "sicrhau gwasanaethau bysiau y maent o'r farn eu bod yn angenrheidiol yn gymdeithasol na fydd y farchnad fasnachol yn eu darparu".

[Wrth gyhoeddi'r Grant Rhwydwaith Bysiau ym mis Mawrth 2024](#), dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd yn "gweithredu fel pont rhwng yr arian brys a ddarparwyd i fasnachfreinio bysiau".

### 1.3. Cynlluniau ar gyfer masnachfreinio bysiau

Mae [Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth](#) sy'n gofyn am fasnachfreinio bysiau ledled Cymru a chaniatáu i sefydlu cwmnïau bysiau trefol newydd. Byddai'r cyfrifoldeb dros gynllunio'r rhan fwyaf o wasanaethau bysiau yn cael ei drosglwyddo i ofal Trafnidiaeth Cymru a Gweinidogion Cymru.

Cyhoeddodd Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru [Ein Map Ffordd i Ddiwygio'r Bysiau](#) sy'n amlinellu sut y byddai masnachfreinio yn cael ei roi ar waith. O dan y cynlluniau hyn, byddai'r awdurdod masnachfreinio (Gweinidogion Cymru) yn pennu'r gwasanaethau a sut y byddant yn rhedeg, gan gynnwys llwybrau, safonau cerbydau, amserlenni a phrisiau tocynnau. Byddai gweithredwyr wedyn yn cynnig am gontractau i redeg y gwasanaethau hyn.

Dywedodd [Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates AS](#) ei fod yn bwriadu cyflwyno'r Bil ym mis Mawrth 2025.

## 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Yn ei lythyr at y Cadeirydd ar 25 Chwefror dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, "Nid yw bob amser yn bosibl nac yn ymarferol darparu cysylltiadau bws uniongyrchol i Ysbyty y Faenor o bob cymuned".

Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn awgrymu ar wahân i'r gwasanaethau sy'n gweithredu ar hyn o bryd, "nid oes diddordeb amlwg gan gwmnïau bysiau i gyflwyno gwasanaethau bysiau eraill [i'r ysbyty] yn fasnachol".

Mae'r llythyr hefyd yn nodi'r canlynol:

Dywedodd Cyngor Sir Fynwy eu bod wedi cynnig tendr yn ddiweddar i gaffael gwasanaeth bws rhwng Y Fenni a Phont-y-pŵl, oedd yn cynnwys opsiwn i gwmnïau ymestyn teithiau i Ysbyty y Faenor. Fodd bynnag, ni gyflwynodd unrhyw gwmnïau geisiadau i ymestyn y llwybr i'r ysbyty.

Llynedd, fe wnaethom ariannu gwasanaeth bws arbrofol yn cysylltu Ysbyty y Faenor â Phont-y-pŵl, Trecelyn a Choed-duon am gyfnod o chwe mis, ond cymedrol oedd nifer y teithwyr, a oedd yn dangos yr heriau wrth geisio sicrhau bod cysylltiadau bws uniongyrchol newydd â'r Faenor yn gynaliadwy.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn dweud ei fod wedi gofyn i Trafnidiaeth Cymru (gan weithio gydag awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol) ystyried cysylltiadau ag ysbytai a chyfleusterau gofal iechyd allweddol wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer y rhwydwaith bysiau o dan fasnachfreinio.

### 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Mae mater gwasanaethau bws yn cysylltu cymunedau ag ysbyty'r Faenor wedi cael ei godi sawl gwaith yn y Cyfarfod Llawn, yn enwedig yn y cyfnod yn arwain at agor yr ysbyty yn 2020 ac mewn ymateb i dorri'r gwasanaeth arbrofol y mae llythyr Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfeirio ato (gweler uchod).

Ym mis Hydref 2024, gofynnodd Laura Anne Jones AS i Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y gwasanaethau rhwng yr ysbyty a'r Fenni yn benodol. Mewn ymateb, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at y ddeiseb hon a dywedodd ei fod wedi "gofyn i fy swyddogion edrych felly ar ddichonoldeb llwybr o'r fath, yng nghydestun argaeledd cyllidebau".

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf P-06-1498  
Ein cyf MA/KSNWT/00210/25

Carolyn Thomas AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

25 Chwefror 2025

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 03 Chwefror, ar ran Kathryn Lynch, ynghylch Deiseb P-06-1498 *Cyflwyno gwasanaeth bws o Orsaf Fysiau'r Fenni i Ysbyty y Faenor*, yr ydych wedi'i ddarparu cyn ei hystyried gan y Pwyllgor.

Rwy'n awyddus i weithio gyda Trafnidiaeth Cymru (TrC), awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau i wella cysylltiadau gwasanaethau bysiau â safleoedd ysbytai allweddol a chyfleusterau gofal iechyd. Y flwyddyn ariannol hon rydym wedi darparu £39m i awdurdodau lleol drwy'r Grant Rhwydwaith Bysiau i'w galluogi i gynnal a gwella gwasanaethau bws. Wrth i ni fwrw ymlaen â'r cynlluniau ar gyfer masnachfreinio bysiau, mae TrC yn cydweithio ag awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig i ddatblygu cynlluniau y rhwydwaith bysiau ym mhob rhanbarth. Rydym wedi gofyn iddynt edrych ar yr achos dros ddarparu gwell cysylltiadau ag ysbytai a chyfleusterau gofal iechyd allweddol.

Mae ysbytai mawr, fel Ysbyty y Faenor, yn denu cleifion a staff o dalgylch eang. Nid yw bob amser yn bosibl nac yn ymarferol darparu cysylltiadau bws uniongyrchol i Ysbyty y Faenor o bob cymuned. Ar hyn o bryd, mae Newport Bus yn gweithredu'r gwasanaeth masnachol rheolaidd 29 sy'n cysylltu'r ysbyty â gorsafoedd rheilffordd a bysiau Cwmbrân, yn ogystal â chanol dinas Casnewydd. Nid oes diddordeb amlwg gan gwmnïau bysiau i gyflwyno gwasanaethau bysiau eraill yn fasnachol.

Dyweddodd Cyngor Sir Fynwy eu bod wedi cynnig tendr yn ddiweddar i gaffael gwasanaeth bws rhwng Y Fenni a Phont-y-pŵl, oedd yn cynnwys opsiwn i gwmnïau ymestyn teithiau i Ysbyty y Faenor. Fodd bynnag, ni gyflwynodd unrhyw gwmnïau geisiadau i ymestyn y llwybr i'r ysbyty. Ar hyn o bryd, mae angen i bobl sy'n byw yn ardal Y Fenni deithio i Ysbyty'r Faenor drwy ddal naill ai fws neu drên i Gwmbrân a chysylltu â gwasanaeth Bws 29 Casnewydd.

Llynedd, fe wnaethom ariannu gwasanaeth bws arbrofol yn cysylltu Ysbyty y Faenor â Phont-y-pŵl, Trecelyn a Choed-duon am gyfnod o chwe mis, ond cymedrol oedd nifer y teithwyr, a oedd yn dangos yr heriau wrth geisio sicrhau bod cysylltiadau bws uniongyrchol newydd â'r Faenor yn gynaliadwy.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 36**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae rheolwyr bysiau rhanbarthol De-ddwyrain Cymru wedi trafod cyfleoedd i wella mynediad i Ysbyty y Faenor yn ddiweddar, a byddant yn parhau i edrych ar wahanol opsiynau i helpu i wella trafndiaeth gyhoeddus yn seiliedig ar dystiolaeth o angen a gwerth am arian.

Gobeithio fod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken', written in a cursive style.

**Ken Skates AS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafndiaeth a Gogledd Cymru

# Eitem 3.1

## P-06-1352 Cymeradwyo adeiladu trydedd bont dros y Fenai

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Emyr Owen, ar ôl casglu 362 o lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae Panel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad o'r diwedd na ddylai trydedd bont dros y Fenai gael ei hadeiladu oherwydd pryderon ynghylch newid hinsawdd. Er ein bod i gyd yn deall ac yn gwerthfawrogi'r materion ynghylch yr hinsawdd, mae'r penderfyniad hwn yn ergyd drom i drigolion Ynys Môn ac i unrhyw un sy'n cymudo'n rheolaidd dros y Fenai.

### Gwybodaeth ychwanegol:

Mae trydedd groesfan dros y Fenai wedi bod yn gynnig prosiect ers blynyddoedd lawer yn y gobaith y byddai'n cael ei hadeiladu o'r diwedd ar ôl i ganlyniad ymgynghoriad ar y cynlluniau gael ei gyhoeddi yn 2018. Fodd bynnag, yn 2021, cafodd y prosiect hwn (fel prosiectau ffyrdd eraill yng Nghymru) ei rewi er mwyn i'r Panel Adolygu Ffyrdd graffu arno.

Cafwyd llawer o ddadleuon ynghylch gwydnwch, yn fwyaf diweddar pan gafodd Pont y Borth ei chau am dri mis. Dangosodd hynny faint o hunllef yw croesi Pont Britannia oherwydd y cynnydd yn y traffig, a phe bai'n rhaid i'r bont honno gau am gyfnod, byddai Pont y Borth yn sicr yn methu â delio â'r cynnydd mewn traffig.

Gwnaeth yr adolygiad hyd yn oed ddweud y byddai cefnogi'r drydedd groesfan yn gwella diogelwch, gwydnwch a theithio llesol, ond serch hynny daeth i'r casgliad na ddylai'r prosiect fynd yn ei flaen, sy'n gwneud y penderfyniad yn fwy dryslyd fyth.

Dylid cymeradwyo adeiladu trydedd groesfan dros y Fenai, gan y gall gwneud hynny fod yn gatalydd gwych i brosiectau sy'n llesol i'r hinsawdd yn y dyfodol.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Wreccsam

- Gogledd Cymru

## Eitem 3.2

**P-06-1464 Caniatáu i deuluoedd Cymru sydd wedi colli baban cyn 24 wythnos gael tystysgrif colli baban**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Angharad Cousins ôl casglu 749 o lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno tystysgrifau colli baban i deuluoedd yn Lloegr sydd wedi colli babanod cyn 24 wythnos. Nid yw hyn yn gymwys i deuluoedd Cymru. Gadewch i ni newid hyn!!

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Caerffili
- Dwyrain De Cymru

**Sarah Murphy AS/MS**  
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant  
Minister for Mental Health and Wellbeing



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1464  
Ein cyf/Our ref SM/00130/25

Carolyn Thomas MS  
Chair - Petitions committee

03 Mawrth 2025

Annwyl Carolyn

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch Deiseb P-06-1464 Caniatáu i deuluoedd Cymru sydd wedi colli babi cyn 24 wythnos gael tystysgrif colli baban.

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU i ymestyn y cynllun i Gymru, ac ar hyn o bryd maent yn aros am gynigion terfynol gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch yr opsiynau a chostau cysylltiedig.

Yn gywir,

**Sarah Murphy AS/MS**  
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant  
Minister for Mental Health and Wellbeing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru)  
[Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales](mailto:Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 41

## Eitem 3.3

### **P-06-1463 Parhau i ariannu swyddogion heddlu ysgolion sy'n addysgu plant ac yn cefnogi ysgolion**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cai Gleaves ôl casglu 5,717 o lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Caniaaodd School Beat Cymru i 68 o swyddogion heddlu ysgolion o'r pedwar heddlu yng Nghymru gyflwyno gwersi ar gamddefnyddio sylweddau, diogelwch personol, materion diogelu ac ymddygiad.

Ond mae Llywodraeth Cymru am roi'r gorau i ariannu'r cynllun er mwyn arbed £2m y flwyddyn o fis Ebrill ymlaen.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol:**

Bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar adnoddau ysgolion a'r heddlu, sydd eisoes dan bwysau sylweddol. Yn ogystal ag addysgu disgyblion, mae swyddogion heddlu ysgolion yn ymateb i helyntion mewn ysgolion. Maent wedi datblygu sgiliau a gwybodaeth benodol i ymdrin â phroblemau mewn ysgolion ac wedi meithrin perthynas waith dda gyda staff a disgyblion. Heb swyddog heddlu penodedig, bydd yn rhaid i ysgolion ffonio 101, a gallai hynny hefyd orlethu'r ganolfan gyfathrebu a rhoi pwysau ychwanegol ar swyddogion ymateb cyffredinol. Bydda hyn yn lleihau ymhellach yr adnoddau i ymateb i alwadau eraill. Mae helyntion yn codi'n rheolaidd mewn ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, ac mae cael swyddog penodedig yn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon o ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
- Canolbarth a Gorllewin Cymru



Plismona  
yng Nghymru  
Policing in Wales



Carolyn Thomas MS  
Chair of the Petitions Committee  
Welsh Parliament

Dear Carolyn

**Re: P-06- P-06-1463 Continue to fund school police officers who educate children and support schools**

Thank you for your letter dated 20<sup>th</sup> December 2024, regarding the Petitions Committee considering the above petition. You stated that the Committee noted that these school programmes had been running for 21 years, and members had questions that relate to both the funding and operational outcomes. Therefore, contact was made with both the Chief Constables and Police and Crime Commissioners for the four police forces in Wales, to ask:

1. Clarity on if and how your schools programme has changed.
2. The outcomes of the investment made over the past 21 years.
3. Views on the impact of the cut to Welsh Government funding.

Given that your correspondence was issued to all Chief Constables and Police and Crime Commissioners, it was agreed that a collective response from Policing in Wales would be appropriate. The most significant issue was the lack of any notice being provided to Chief Constables and Police and Crime Commissioners, of Welsh Governments decision to step back from the partnership and cease their funding commitment. This placed Policing in Wales in an extremely challenging position in having to make short term financial decisions that impacted on other areas of service delivery that could have been avoided by earlier engagement and discussion.

I would like to reassure you that all four forces are committed to providing the best possible response to supporting children, young people and schools across Wales and have continued to deliver a service since the funding for this key area was stopped.

**1. Clarity on if and how your schools programme has changed.**

The purpose of the funding for the Wales Police School Programme (WPSP) over many years has been to support primary and secondary schools, as well as Pupil Referral Units (PRU) across Wales to:

- a. Educate children and young people about the harm substance misuse can cause to their health, their families and wider community.

- b. Promote the principles of positive citizenship through the medium of education.
- c. Achieve a reduction in the level of crime and disorder within our young communities.

Since the announcement of funding withdrawal by Welsh Government, all forces have had to implement new initiatives. The sudden removal of the funding negatively impacted policing and left little to no time for stakeholder engagement and consultation, resulting in surprise and disappointment.

**North Wales Police** – have continued to deliver the ‘As was’ WPSP programme with all their 16 School Police Officers (SPOs). This has been subject to force review (supported by Force Optimisation Team) and through Force Budget Setting. A proposal was given to retain all SPO posts going forward but to revise the SPO role and responsibilities for modern day policing and to support the force vision. The proposal outlined how the 16 SPOs would continue to support ‘in school visibility and educational inputs’ but evolve to include responsibility for expanding the Mini Police Initiative and focused community engagement activity into their role.

**Dyfed Powys Police** – the WPSP was a highly valued and widely used service across the force. During an already challenging financial environment, the force has continued to provide a service to their schools. A decision to retain the 14 SPOs was approved by the Chief Constable and Police and Crime Commissioner, which provides a designated single point of contact for every educational establishment. A schools Service Manager police staff post oversees the tactical operational delivery of the SPO team, whilst collaborating with key partner agencies and stakeholders. Dyfed Powys Police are operating a new Police School Service based on local challenges, needs, and policing demands. Crime Prevention Education in primary and secondary schools reinforces the Chief Constables priorities and the Police and Crime Commissioners Crime plans.

**South Wales Police** – The service is now known as South Wales Police Youth Engagement Services (YES). The role of the SPO has been superseded by the new role of the Youth Engagement Officer (YEO). The force has retained the 25 officers that work within the education context and now more broadly with young people in the community who are at risk of criminalisation, exploitation and working with vulnerable families who are at risk of harm, delivering targeted interventions in line with policing priorities. These officers are divided across the 3 geographical areas, aligned to the Community Safety Partnership department, and play integral role in supporting our police youth volunteers. The force has additionally retained the WPSP Regional Manager, now known as Youth Engagement Services Manager (YESM), who has oversight of the work of the YEOs across the force and works at a strategic level with a range of partners around Policing Priorities as they pertain to the young. The South Wales YESM retains communication with the former WPSP managers in Dyfed Powys and North Wales Police to share best practice and resource materials being used by officers in schools and the community.

**Gwent Police** – have used the change in funding to develop a future school provision program facilitated by Neighbourhood Officers embedded within their communities. Gwent has retained guidance from former school liaison funded officers who are now operating in a coordinator role to ensure that Neighbourhood Officers are adequately trained to conduct this function. All schools have been appropriately risk assessed regarding the frequency of engagement required, and the force is monitoring this new model and will seek feedback throughout the academic year.

## 2. The outcomes of the investment made over the past 21 years.

The Youth Justice Blueprint for Wales (2019) sets out a strategy preventing children from entering the Criminal Justice System, minimising their contact with it and maximising opportunities for diversion to support them to lead crime free lives. The vision for the Youth Justice in Wales adopts a 'children first' rights approach, ensuring that efforts are child-centred rather than service-focused. Recognising that responding in this way is in the best interests of the child, to best meet their individual need.

School Police Officers (SPO) have been focused on building relationships with children as they progress through the school system. Previous reviews highlighted, Police Officers operating in schools were paramount in establishing productive and positive contact and was found to break down barriers particularly for hard-to-reach groups and communities which may have an inherent mistrust of authority.

